# Rheolau Diogelwch TGCh

13 Gorffennaf 2017

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 28 Mehefin, pan wnaethoch ofyn,

1. *Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd ichi anfon copi ataf o'r polisi ynghylch defnyddio a monitro negeseuon e-bost sy'n berthnasol i Aelodau'r Cynulliad.*

2. *Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech nodi a yw negeseuon e-bost Aelodau'r Cynulliad yn cael eu monitro, a nodi hefyd a yw'r gweithgarwch monitro hwnnw'n cynnwys yr hyn sydd wedi'i gynnwys mewn e-bost gan Aelod.*

Mae ein hymatebion i'ch dau gwestiwn wedi'u nodi isod.

1. *Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd ichi anfon copi ataf o'r polisi ynghylch defnyddio a monitro negeseuon e-bost sy'n berthnasol i Aelodau'r Cynulliad.*

Atodaf y polisi cyfredol ynghylch ein Rheolau Diogelwch TGCh.  Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y polisi ynghylch defnyddio negeseuon e-bost.

ICT-Security-Rules-Final-March-2016 (2).pdf

2. *Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech nodi a yw negeseuon e-bost Aelodau'r Cynulliad yn cael eu monitro, a nodi hefyd a yw'r gweithgarwch monitro hwnnw'n cynnwys yr hyn sydd wedi'i gynnwys mewn e-bost gan Aelod.*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Fel mater o drefn, rydym yn sganio'r holl negeseuon e-bost fel rhan o'n mesurau diogelu yn erbyn ymosodiadau malware, sbam a gwe-rwydo. Mae'r gweithgarwch sganio hwn yn beirianyddol ac yn awtomatig. Mae'n defnyddio cronfeydd data rhith lofnod byd-eang i atal feirysau a sbam, ac yn defnyddio rhaglenni hewristig ac algorithmau sy'n seiliedig ar batrymau. Ymdrinnir yn briodol ag unrhyw neges e-bost sy'n cyd-fynd â'r cronfeydd data neu batrymau hyn (drwy eu dileu neu eu rhoi mewn cwarantîn ac ati).

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF